

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Yn aseiniad hon byddai'n dadansoddi achos critigol deuthum ar draws yn ystod fy lleoliad. Byddai'n treiddio'n ddyfnach mewn i'r achos trwy ddefnyddio damcaniaethau i helpu ystyried pam digwyddodd yr achos critigol ac fel gallwn ni osgoi nhw digwydd eto. Nododd Tripp (1993) bod achos critigol yn ddehongliad o arwyddocâd digwyddiad. Trwy ddadansoddi'r digwyddiad mae'n helpu gwella barn broffesiynol a dylanwadu ar ein haddysgu. Mae llawer o faterion sy'n ymwneud â dysgu yn y dosbarth yn cynnwys materion ymddygiad felly, sgil bwysig i athro yw delio a'r materion hyn wrth sicrhau nad ydynt yn amharu ar ddysgu'r dosbarth. Yn benodol, mae'n bwysig bod yr athro/athrawes yn gallu nodi a thryledu problemau potensial fel bod materion unigol ddim yn cael eu chwythu allan o gymesur a'i bod gweithgaredd y dosbarth ddim yn cael ei amharu. I ddangos hyn, byddaf yn disgrifio digwyddiad penodol a'r ffordd y credaf y dylid delio ag ef, wrth gydnabod y bydd athrawon unigol gyda dulliau eu hunain i ddelio â'r fath o faterion. Er gall dull unigol i bob sefyllfa fod yn wahanol, credaf ei bod yn bwysig bod pob athro yn deall yr egwyddorion y dylid eu defnyddio wrth ddelio â'r sefyllfaoedd hyn.

Arsylliad

Am bwrpas yr aseiniad yma byddaf yn cadw at ganllawiau BERA (2018) er mwyn sicrhau rhesymau moesegol trwy alw fy Ysgol lleoliad yn 'Ysgol X' a'r disgybl rwy'n dadansoddi yn 'bachgen A'. Mae Ysgol X yn Ysgol Uwchradd, 11-19 oed, gyda 914 o ddisgyblion â phresenoldeb o 94.4% yn ystod y flwyddyn (My Local School, 2018). Mae Ysgol X yn derbyn disgyblion o wahanol alluoedd. Mae yna 20% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae 61% o'r plant yn siarad Cymraeg gartref (Estyn, 2016). Yn ogystal mae 10.1% o ddisgyblion yn cymwys am brydau ysgol am ddim sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.6% yn 2018 (My Local School, 2018). Yn ôl adroddiad Estyn (2016) mae cyllideb ysgol unigol fesul disgybl am Ysgol X yn 2015-2016 yn £5,038. Penodwyd y pennaeth i'r swydd yn 2015 ac mae'r uwch arweinydd yn cynnwys y prif athro, dirprwy prif

athro a thri o benaethiaid cynorthwyol (Estyn, 2016). Arsylwyd pedwar gwersi yn Ysgol X fel gwelwyd yn yr atodiadau fodd bynnag bydd aseiniaid hon yn ffocysu arno atodiad A.

Methodoleg

Defnyddiwn ddull arsylwi er mwyn casglu gwybodaeth. Mae arsylwi yn ddull a ddefnyddir yn helaeth i gasglu gwybodaeth a gellir defnyddio mewn ffyrdd gwahanol. Y brif nod i arsylwi yw edrych a nodi'n rheolaidd o bobl a'i ymddygiadau, amgylchedd/gosodiad. Fel y noda Cohen (2018), trwy ddefnyddio arsylwi rydych yn cael data 'byw' o sefyllfaoedd cymdeithasol naturiol. O ganlyniad, mae'r arsylwyr yn gallu edrych yn uniongyrchol a'r digwyddiad yn lle dibynnu ar farn pobl eraill. Ymhellach mae hyn yn golygu bod potensial i'r data bod mwy dilys na dulliau arall. Pwysleisiodd Robson (2002) hyn trwy nodi gall yr hyn mae pobl yn ei wneud fod yn wahanol i'r hyn mae pobl yn dweud eu bod yn ei wneud. Mae arsylwi hefyd yn datrys y broblem o fwch amser rhwng y weithred o arsylwi a nodi'r digwyddiad. Yn ogystal efallai mai rhai pobl, yn enwedig plant sydd y grŵp rwy'n ffocysu arno, yn teimlo'n well gan arsylwyr na chael cyfweiliad llafurus oherwydd mae llai o bwysau arnynt. Trwy neud y dull yma, mae'n hefyd gadael i'r athro parhau gyda'i wers.

Mae yna wahanol fathau o fodelau arsylwi. Gallwyd dewis model arsylwi cyfranogwyr sef bod yn ymwneud â'r bobl yn eu hamgylchedd tra hefyd yn arsylwi. Fodd bynnag, dewiswyd y model arsylwi di-gyfranogwr sef arsylwi ond aros ar wahân i'r gweithgareddau sy'n cael eu harsylwi oherwydd mae'n ddull anymwithiol. Trwy ddefnyddiwn y dull arsylwi di-gyfranogwr gallwn ddehongli ar yr achos critigol. Esboniodd Tripp (1993) bod hyn yn bwysig iawn i athrawon oherwydd ni allai categoreiddio achos critigol mewn un ffordd. Arsylwyd trwy eistedd yn gefn y dosbarth edrych a nodwch ymddygiadau'r plant. Wrth ddefnyddio'r dull yma mae gwreiddioldeb o wybodaeth i'r data sy'n efallai yn cael eu gwadu mewn ffurfiau eraill er enghraifft holiadur. Hefyd ni fyddaf yn anghofio unrhyw ddata pwysig oherwydd byddaf yn ysgrifennu fel y gwelaf.

Er mae arsylwi yn ddull pwrpasol, mae dal gan ei hanawsterau er enghraifft mae arsylwi yn anochel yn ddetholus oherwydd mae'n dibynnu faint o sylw mae'r arsylwyr yn rhoi. Hefyd er defnyddiwn arsylwi di-gyfranogwr, mae'n anodd peidio â chymryd rhan o gwbl yn yr arsylwi. Weithiau roedd y plant yn gofyn cwestiynau amdano'r gwaith felly helpwn gyda'i broblemau, mae hyn yn wedyn newid y dull i arsylwi cyfranwyr (Bailey 1994).

Dadansoddwyd achos critigol yn Ysgol X gyda'r Bachgen A. Mae'n achos critigol a ddim astudiaeth achos oherwydd fel y noda Cohen (2018 tud. 289), mae astudiaeth achos yn cyffredinoli ac yn sefyllfa yma mae'r digwyddiad yn fwy diddorol na'r digwyddiadau eraill oherwydd yn syth rhoddwyd mewnwelediad i bersonoliaeth bachgen A. Mantais i achos critigol yw, fel dywedodd Wragg (1994), ni fyddwn gynnig mewnwelediad cael ei godi yn

arsylwi arferol. Byddwn yn edrych yn ddyfnach mewn i'r achos i geisio gweithio allan y rhesymau tu ôl i'r digwyddiad. Yn ogystal, nid oes digon o amser iddynt fod yn astudiaeth achos oherwydd cymerwyd y nodiadau yno ac yn y man.

Pedwar Pwrpas

Arsylwyd gwers Darlunio a Thechnoleg blwyddyn 8 a oedd yn 50 munud hur. Gyda 30 o blant yn y dosbarth, roedd yr awyrgylch yn brysur a chyffrous. Roedd yn ystafell ddosbarth lluniadaeth gan ddysgon nhw'n rhagweithiol - roedd gan yr athrawes ddeialog gyda'r disgyblion, roedd ei rôl yn rhagweithiol a gweithiodd y disgyblion yn bennaf yn grŵpiau. Y dasg ar gyfer y wers oedd ymarfer gwnïo er mwyn bod yn barod i wnïo clustog. Roedd mwyafrif y plant yn gyffrous am hyn ac arhoson nhw yn amyneddgar i'r athrawes esbonio cyfarwyddiadau. Mae'n glir pwrpas yr athrawes oedd paratoi'r plant sgiliau gallant nhw ddefnyddio yn y dyfodol a thu allan i'r ysgol. Eisteddodd y plant yn grŵpiau, hyd yn oed ar bwys eu ffrindiau. Esboniodd yr athrawes y rheswm am hyn oedd dyma ddosbarth isel gyda mwyafrif o'r plant yn ddiffyg hyder. Wrth iddyn nhw eistedd ar bwys eu ffrindiau roeddent yn fwy hyderus i ofyn cwestiynau os nad oeddent nhw'n deall rhywbeth. Yn ogystal, gaiff pob myfyrwr ei herio wrth i'r athrawes dosbarthu gwahanol fathau o waith. Arhosodd yr athrawes gyda rhai plant pan oeddent yn gwnïo i helpu, tra gadael rhai eraill defnyddio'r peiriant a gweithio allan problemau ar ben eu hun.

Er mae'r dosbarth yn portreadu'r pedwar pwrpas gan Donaldson, roedd yr ymddygiad arsylwyd ddim yn cyd-fynd gydag awgrymiadau Donaldson o beth sy'n ddisgwyliedig ac ymddygiad ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2018). Gan grŵp isel oedd hyn, efallai gallwn ddisgwyl rhai ymddygiadau. Er digwyddodd nifer o achosion critigol yn ystod y wers, arsylwyd ar un diddorol iawn. Ymgasglodd y disgyblion o amgylch yr athrawes i'w harsylwi yn gwneud enghraifft o sut i ddefnyddio peiriant gwnïo, tra hefyd yn esbonio iechyd a diogelwch. Ar yr un pryd, aeth bachgen A ar y bwrdd a dechrau dawnio. Roedd y plant i gyd yn chwerthin ond yn syth dywedodd yr athrawes 'cer lawr'. Wedyn, cariodd hi ymlaen esbonio'r cyfarwyddiadau i'r plant a gwrandawodd y bachgen fel y plant arall. Ni roddodd y sylw roedd ef eisio a pharhaodd yn sicrhau bod agwedd greadigol y pedwar pwrpas yn cael ei gyflawni.

Mae'r meddwl gyntaf bod bachgen A yn hyderus iawn sy'n cyflawni un o'r pedwar pwrpas Donaldson – “*creu unigolyn iachus a hyderus yn barod i fyw bywydau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas*”, ond mewn ffordd negyddol (Llywodraeth Cymru, 2018, tud.4). Mae'n ddiddorol weld weithiau dydy'r pedwar pwrpas ddim yn gweithio i fantais y dosbarth er enghraifft mae'n glir bod y bachgen yma yn ddigon hyderus i gamymddwyn. Fodd bynnag, byddai'n ddiniwed i feddwl mai hwn oedd yr unig achos, hyd yn oed yr achos gwir. Rhaid

edrych yn ddyfnach mewn i'r achos er enghraifft, er bod y bachgen yn ddigon hyderus tu allan, dydy hyn ddim yn sicrhau mae'n hyderus mewnol. Felly gallwn awgrymu mae bachgen A dal eisiau gweithio arno agwedd hyderus i gwrdd â'r pedwar pwrpas (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn ogystal, er roedd mwyafrif o'r plant yn cyflawni i'r pedwar pwrpas mae'n pwysleisio'r ffaith bod hon yn ddosbarth o 30 unigolion yn hytrach na 30 o ddisgyblion. Rhaid deall gallwch chi ddim dysgu'r plant yr un sgiliau'r un amser pob tro.

Adolygiad Llenyddiaeth

Er bod plant yn aml angen sylw mewn llawer o achosion, fel y gwelir yn yr atodiadau is, mae rhai angen mwy na'i gyfoedion. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen ymchwilio'n ddyfnach i ddeall pam. Gallwn awgrymu mae bachgen A yn teimlo nad yw wedi cael ei gynnwys yn y wers ac mae'n dymuno cael ei dderbyn i mewn i 'gymuned y disgyblion' er mwyn ffitio i mewn. O ganlyniad, bydd y drafodaeth hon yn canolbwyntio ar sut mae'r achos critigol yn atodiad A yn portreadu bod bachgen A yn ceisio perthyn yn ei ystafell ddosbarth. Diffinnir yr ymdeimlad hwn o berthyn ysgol fel *“the extent to which students feel personally accepted, respected, included and supported by others in the school social environment”* (Goodenow a Grady, 1993, tud. 61).

Yn debyg i Goodenow a Grady (1993), mae damcaniaeth Dreikurs yn gweld ymddygiad camymddwyn fel bwriad cyfeiriedig ac yn gydadferol yn fyfyrwyr sy'n ceisio perthyn a chael eu derbyn yn yr ysgol (Dreikurs, Grunwald, Pepper, 1982). Nododd Dreikurs pan fydd plentyn yn mynd mewn i gymuned yr ysgol, mai eu prif awydd yw perthyn (Dreikurs, Grunwald, Pepper, 1982). Mae llawer o blant yn dysgu i berthyn yn gymdeithasol mewn ffyrdd rhesymol a chydweithredol ond mae'n amlwg bod rhai yn dangos ymddygiadau sylwgar.

Mae llawer yn ystyried bod y teimlad o berthyn yn gallu gwella llwyddiant academiaidd a chymhelliad (Roffey, Boyle, Allen, 2019). Mae model Disgyblaeth Gymdeithasol Dreikurs yn seiliedig ar egwyddorion damcaniaeth gymdeithasol Adler (Tauber, 2007, tud. 145):

1. Mae bodau dynol yn fodau cymdeithasol a'u cymhelliant sylfaenol yw perthyn rhywle.
2. Mae pwrpas i bob ymddygiad.
3. Mae yna sawl cymhelliad i gamymddygiadau plant er enghraifft, tynnu sylw, pŵer/rheolaeth a dial (Tauber, 2007, tud.147; Malmgren, Trezek, Paul, tud.37).

Mae'n glir o'r pwyntiau uchod pam mae Dreikurs yn ddweud dydyn ni ddim yn fodau dynol yn unig ond hefyd bodau cymdeithasol (Tauber, 2007). Trwy hyn efallai dymunodd

bachgen A i greu argraff ar ei gyfoedion trwy anufuddhau'r rheolau dosbarth a gwneud i'w gyfoedion chwerthin a thrwy hynny helpu i gael y derbyniad hwn. Mae bod yn ganolbwynt sylw yn awydd cyffredin i ddisgyblion. Mae'r awydd i gael sylw a derbyniad yn cael ei arddangos ymhellach o'r achos critigol trwy i'r plant eu cysgodi o amgylch yr athro wrth iddi egluro a dangos sut i ddefnyddio'r peiriant gwnïo. Fodd bynnag, ymddangosodd bachgen A i fod ar wahân o'r grŵp a sefydlodd ef ychydig tu ôl i'r grŵp. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r diffyg teimlad perthynol a barodd iddo droi'r sylw tuag at ei hun wrth ddawnsio ar y bwrdd er mwyn ffitio i mewn. Mae'n ddiddorol gweld bod amgylchedd y dosbarth hefyd yn dylanwadu ar sylw a ddymunir gan blant. Mae dosbarth sydd ddim wedi'i chynllunio ar gyfer y dysgu gorau posibl yn cyfrannu at gamymddwyn disgyblion. Mae trafodaethau ymysg cyfoedion wrth sefyll o amgylch yr athro yn rhwystro'r rhai sy'n cael trafferth i ffitio i mewn felly achosi nhw i gamymddwyn. Dylid nodi fodd bynnag, fel gwelir yn y atodiadau mewn gwersi eraill a arsylwyd, mae disgyblion sy'n aros yn dawel a pheidio â chymryd rhan mewn trafodaethau yn aml yn achosion o ddiffyg hyder a'r ymdeimlad o berthyn. Mae'n ddiddorol gweld yr ymddygiad cyferbyniol sydd efallai wedi'i wreiddio o'r un achos.

Mae'n bwysig nodi rhaid cofio i lawer o blant mae dod i'r ysgol yn lle gallant ddod o hyd i'r perthyn hwn a dianc o fywyd gartref - tra hefyd datblygu eu hunigolyddiaeth. Mae Dreikurs a Dinkmeyer (2000, tud.20) yn ymhellach dweud mai o fewn cytserau teuluol o'r fath y mae patrymau sylw a phŵer negyddol yn cael eu cenhedlu a'u datblygu. Felly, y sylw rydyn nhw'n ddiffyg gartref maen nhw awydd yn ysgol. Mae'r camymddwyn a ddangosir gan fachgen A yw'r ffordd mae wedi canfod ei fod yn mynegi ei hun er mwyn cael derbyniad a sylw. Mae pob gweithred gan fachgen A, yn ôl Dreikurs a Dinkmeyer (2000), wedi'i seilio ar y syniad bod disgybl yn chwilio am eil le yn yr ysgol, y cartref a'r byd yn gyson.

I lawer o ddisgyblion daw eu canmoliaeth a'u hanogaeth yn aml wrth eu rhieni, gwarcheidwaid neu aelodau eraill o'r teulu. Fodd bynnag, os yw plentyn yn profi absenoldeb hyn yna mae'n debygol bod ei hunan-barch a'i hyder yn is na'r rhai sy'n derbyn yr atgyfnerthiad a'r anogaeth gadarnhaol hon. Mae'n bosib er bod bachgen A yn hyderus yn allanol gan ei fod yn gallu gwneud iddo'i hun sefyll allan dros ei gyfoedion, nid yw hyn yn golygu ei fod yn hyderus yn fewnol. Os mae bachgen A yn ddiffyg sylw a chefnogaeth yn y cartref, yna dylid nodi bod diffyg hyder yn aml arwain at un yn teimlo fel na allant gyflawni'r dasg a osodwyd yn y dosbarth yn llwyddiannus. Mae myfyrwyr fel bachgen A yn aml yn camymddwyn fel ffordd i osgoi cymryd rhan mewn unrhyw beth a allai arwain at fethiant.

Amlygir yr angen am gefnogaeth emosiynol gartref trwy gydol y cyfweiliadau yn erthygl Curson, Wilson-Smith a Holliman (2019, tud.33). Nododd sawl cyfranogwr ei fod yn dod a chysur mawr iddynt allu dychwelyd adref gan wybod bod cefnogaeth. Mae'r awydd hyn am gefnogaeth mor bwysig mai disgyblion ddim yn teimlo pwysau ychwanegol yn dod o'u cartref. Dywedodd Symonds a Galton (2014) bod rhieni a oedd yn ymwneud a bywydau

cymdeithasol ac academiaidd eu plentyn leihau risg o'u plentyn cael addasiad negyddol wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Yn yr un modd, mae astudiaethau Peretti, Clark a Johnson (2001) yn dangos perthynas gref rhwng gwrthod rhieni ac ymddygiadau sy'n ceisio cael sylw. Dangosodd yr astudiaethau ymhellach fod gan y rhai sy'n camymddwyn barn wael ar eu rhieni. Mae hyn yn ein hatgoffa bod y plant hyn yn dal yn weddol ifanc gan eu bod yn dal i fod angen y gefnogaeth gartref. Yn ddi-ddorol, nododd Peretti, Clark a Johnson (2001) bod gwrywod yn teimlo eu bod yn cael eu gwrthod yn fwy na menywod a bod tadau yn amlach y gwrthodwyr na'r mamau. Mae hyn efallai oherwydd credoau traddodiadol o'r fam sy'n gallu darparu cariad a derbyniad yn naturiol i'w plant mwy na'r tadau yn ei wneid. Mae'n amlwg felly, fel nododd Taylor a Carr (1992) mae ymddygiad plant sy'n ceisio cael sylw yn cysylltu'n gryf a'u rhingweithio cymdeithasol ag oedolion yn benodol, eu rhieni, a'r ymatebion wrth eu cyfoedion.

Fel y gwelir uchod o ddiffyg sylw gartref, mae'n amlwg bydd hyn yn cael effaith ganlynol ar drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhaid inni gofio bod blwyddyn 8 dal yn oedran ifanc iawn, gyda'r trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd wedi digwydd yn ddiweddar. Yn benodol, heb gefnogaeth a sylw teuluoedd, gall trosglwyddo i'r ysgol uwchradd fod yn brofiad brawychus ac unig i lawer o blant. Mae'n fater cynyddol, amlygwyd unigrwydd ym Mhrydain a gwledydd arall am bobl ifanc a hyd yn oed pobl hen (Roffey, Boyle, Allen, 2019). Gall y newid i'r ysgol uwchradd effeithio arnynt yn gymdeithasol ac yn emosiynol tra'u bod hefyd yn ceisio ffitio i mewn yng nghymuned yr ysgol. Mae hyn oherwydd bod llawer o blant yn newid o fod ag un ystafell dosbarth ac athro i sawl dosbarthiad ac athrawon. Mae'r dosbarthiadau newydd ddod yn lleoliad cynnar lle gall ymddygiadau aflonyddgar eu cael i sefyll allan oddi wrth eu cyfoedion o'r un oed. Mae'n ddealladwy felly, pe bai bachgen A yn ddiffyg cefnogaeth gartref yn ystod yr amser heriol hwn, yna fe allai geisio'r sylw a ddymunir mewn ffodd afreolus. Mae'n glir bod bachgen A yn ceisio cael sylw anwanhedig gan yr athrawon a hyd yn oed gan ei gyfoedion.

Yn ôl camau datblygiad gwybyddol Piaget bydd bachgen A yn gam olaf sef cyfnod gweithredol ffurfiol - 11 oed a henach (McLeod, 2018). Yn y cam yma dyle'r plentyn datblygu y gall i feddwl am gysyniadau haniaethol a rhesymegol (McLeod, 2018). Fodd bynnag wrth ddadansoddi'r achos critigol gallwn ystyried efallai dydy bachgen A ddim yn cyd-fynd â cham olaf Piaget. Rhaid cofio, mae pob plentyn yn datblygu yn wahanol ac fel nodwyd Vygotsky efallai dylech chi ddim disgwyl ar ddatblygiad plentyn mewn camau ond proses parhaus (McLeod, 2018). Wrth ddadansoddi'r achos critigol yma gwelir dydy'r cam olaf ddim yn warrantedig. Gellid ystyried o'r effaith trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, mae damcaniaeth Vygotsky yn fwy effeithiol yn y sefyllfa yma. Pwysleisiodd Vygotsky (1978) ar ryngweithio cymdeithasol yn y datblygiad o wybyddiaeth gan ei fod yn credu mai'r gymuned yn chwarae rhan bwysig yn y broses i'r plentyn wneud ystyr o bethau. Mae'n amlwg bod cymuned yr

ysgol a hyd yn oed cymuned y teulu yn effeithio bachgen A yn dylanwadu arnynt ymddygiad yn y dosbarth.

Wrth ddefnyddio'r llenyddiaeth yma gwelir gwreiddiau gwahanol i gamymddwyn bachgen A. Trwy edrych ar un rheswm sef sylw gallwn wedyn edrych yn ddyfnach am resymau pam y dymunai am sylw. Er gallwn gael gwreiddiau gwahanol, mae'n glir bod plant eisiau'r teimlad o berthyn i deulu, ysgol a'r byd ac os nad oes ganddyn nhw'r teimlad, byddan nhw gamymddwyn nes iddynt gael y teimlad. Mae pwrpas i ein gweithredoedd pob amser.

Adfyfyrion

Yn ôl Donaldson rhaid newid adfyfyrion oherwydd mae'n bwysig i fod yn ymwybodol o'r achosion y digwyddiadau er mwyn gwella ein haddysgu a datblygu'r pedwar pwrpas (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'n glir wrth ddefnyddio'r llenyddiaeth roedd bachgen A eisiau tynnu sylw atynt. Er dywedodd yr athrawes 'cer lawr' a ni roddodd sylw iddo, yn y dyfodol mae'n fwy gwerthfawr i ddefnyddio dull fel gofal adferol. Wnaeth yr athrawes delio gyda'r broblem er hynny, ni ddeliodd gyda gwreiddiau'r broblem felly gallwn ddigwydd eto. Dylech symud o'r ffyrdd cosbi, fel gwnaeth yr athrawes, i ofal adferol sef yn lle rhoi beth mae eisiau, derbyn y sefyllfa ond tynna'r disgybl o'r neilltu i weld beth oedd y rheswm am y digwyddiad (Restorative Council Justice, d.d.). Ymhellach, rhaid ystyried weithiau mae'r dull yma yn aneffeithiol a'r unig beth mae'n wneud yw codi cywilydd ar y plentyn sydd ddim yn mynd i atal y broblem. Gallwn wedyn cael y plentyn i aros yn ôl ar ddiwedd y wers a siarad ag yn breifat. Fel dywedodd Tripp (1993) gall drin yr ymddygiad gwael heb ddarganfod ei achosion fod yn aneffeithiol ac yn niweidiol. Er gallwn gosbi'r disgybl am gamymddwyn, bydd y symptom yn aml yn diflannu, ond galla broblem wreiddiol gwaethgu.

Caniaaodd yr arsylwi di-gyfranogwr i mi ennill golygfa allanol sy'n sicrhau i mi ddim i deimlo'n cydymdeimlad sy'n gallu creu data rhagfarn. Arweinydd hyn at gasglu llawer o ddehongliadau gwahanol am fachgen A, ei gyfoedion a hefyd y dosbarth i gael syniad dyfnach pam digwyddodd yr achos critigol. Ymhellach, trwy i mi neud yr arsylwi gallai arsylwi ar iaith y corf a ddefnyddir. Hefyd, does dim materion moesegol os mae pobl yn ymwybodol bod nhw'n cael eu harsylwi. Y peth pwysicaf mae'r arsylwi yn rhoi yw mai'n helpu athrawon deall digwyddiadau a gwella eu perfformiad yn addysgu. Er hyn, rhaid bod yn ymwybodol o'r ffaith gall pobl ymddwyn yn wahanol os ryda'n nhw gwybod bod nhw cael eu harsylwi. I fachgen A, gall hyn meddwl er roedd eisiau tynnu sylw ei gyfoedion ac athrawes, efallai roedd eisiau tynnu sylw i mi. Yn ogystal, weithiau roedd yn anodd i wastad sicrhau bod pob peth wedi cael ei ysgrifennu oherwydd ar yr un pryd rwy'n arsylwi pethau arall hefyd. Yn y dyfodol, i gryfhau eich siawns o gasglu gwybodaeth bwrpasol, gallwn ysgrifennu geiriau i

helpu atgoffa chi beth rydych yn disgwyl am. O ganlyniad, ni fyddent yn colli unrhyw ddigwyddiad pwysig yn ystod y wers oherwydd byddwn mwy derbynio i amrediad cyfan o ddigwyddiadau.

Yn yr ystyr hyn defnyddiwn fodel Beirniadu Wedi Adfyfrio (BWA) fel y gwelir yn yr atodiadau. Roedd y rhain yn helpu ni gwahanu'r digwyddiadau a'i theimladau er mwyn sicrhau rhoddwyd barn gytbwys am y digwyddiad. Trwy gael barn ddiduedd gallwn edrych ddyfnach mewn i'r achos critigol gyda llenyddiaeth i'w helpu. O ganlyniad rydym yn creu athrawes effeithiol iawn yn ôl Tripp (2012) wrth iddyn nhw ddadansoddi'r achos. Yn ogystal, mae'r BWA yn helpu ni greu gwersi mwy effeithiol gan ddangos y pethau sy'n gweithio yn y dosbarth a hefyd y rhai sydd ddim.

Mae'r model yma yn cael ei gefnogi gan Donald Schön (1983) sy'n pwysleisio'r syniadau 'reflection-in-action' a 'reflection-on-action'. Mae hyn weithiau yn cael ei ddisgrifio fel meddwl ar eich traed. Wrth ddefnyddio damcaniaethau gallwn adeiladu ar ddeilliadau newydd i hysbysu ein gweithredoedd sy'n datblygu. Dywedodd Schön (1983) wrth i weithwyr ysgrifennu a siarad am weithgareddau, byddwn ddatblygu syniadau amdano'r peth. Er hynny, dydy hyn ddim yn gweithio pryd mae amser yn fyr fel nodwyd Etraut (1994, tud. 145) *"when time is extremely short, decisions have to be rapid and the scope for reflection is extremely limited"*. Fodd bynnag, ystyriwyd yn yr adfyfrio yma beth sydd angen ei newid felly wnaethon 'reflection-on-action'. Wrth neud hyn rydym yn nawr gwybod fel i drin ymddygiad fel hyn yn y dyfodol wrth wybod y wybodaeth o'r llenyddiaeth. Rydym yn neud iddynt athro gwell er mwyn sicrhau rydym yn cyflawni'r pedwar pwrpas.

Casgliad

Caniatwyd arsylwi di-gyfranogwr mewnwelediad dyfnach mewn i ymddygiadau plant yn y dosbarth. Ymhellach, rhoddwyd siawns i gwestiynu ein hunain am y digwyddiadau, fel nodwyd Schön (1983) 'reflection-on-action'. Mae'n bwysig iawn i athrawon wneud hyn oherwydd ni fydd addysgu yn effeithiol neu bwrpasol os dydy'r athro ddim yn deall personoliaeth neu sefyllfa'r unigolyn. Trwy hyn rydych yn cyflawni'r pump safonau allweddol yn enwedig dysgu proffesiynol ac arloesi (Llywodraeth Cymru, 2017, tud.40). Mae'r ddau agwedd hyn yn cymryd addysgeg yn ddyfnach. Wrth ddefnyddio'r ffyrdd ymarferwyr adfyfyriol, mae'n gwneud ystyr o'r profiad ac yn trawsnewid y mewnwelediadau i strategaethau ymarferol er mwyn helpu gwella'r ffordd rydym yn addysgu. Ar yr un pryd rydych yn datblygu sgiliau newydd ond hefyd yn ddyfnach, helpu gwneud penderfyniadau amserol, rheoli emosiynau a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol – sgiliau pwysig iawn i fod yn athro da.

Mae'n glir wrth edrych yn ddyfnach mewn i resymau dros ymddygiad bachgen A, rydych yn cael gwell dealltwriaeth er mwyn sicrhau bod yr addysgu yn addas iddo ef. Gallwn ddefnyddio dulliau iddynt, wrth edrych ar y llenyddiaeth, er mwyn datrys y broblem o'r awydd sylw i osgoi i'r digwyddiad digwydd eto. Mae'n helpu i mi yn y dyfodol i fod yr athrawes gorau rwy'n gellau oherwydd nawr rydw i'n ymwybodol o'r ffaith er mae plant eisiau sylw ac i deimlon rydyn nhw berthyn yn y gymuned, mae rhai plant eisiau hyn mwy na'r norm er mwyn helpu nhw cael y teimlad o berthyn. Mae arsylwi, dadansoddi'r achos critigol a hefyd adfyfrio i gyd yn cyfrannu at wella fy addysgu a theimlwyd yn fwy cyffroes i ddechrau fy ngyrfa yn addysg.

Atodiadau

Atodiad A:

Atodiad B:

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19
Manylion y wers: Bl 8, grwp isel - diffyg hyder, 30 plant, 1 awr.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Gwers darlunio a thechnoleg. Eistedd yn grwpiau, Defnyddio peiriannau, bwrdd gwin, rheolau peiriant gwnio ar bwys y peiriant.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Datblygu sgiliau gwnio a gwranddo, gorffen gwaith o wers ddiwethaf.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Athro yn fodel i'r plant, dangos sut i ddefnyddio periant gwnio. 5 nod y wers ar fwrdd.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Gwneud cynllun goryn am iechyd a diogelwch, lefelau gwahanol trwy roi esiamplau i rai ond ddim eraill.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Gofyn cwestiynau i'r plant er enghraifft ydyn nhw'n deall y dasg? Plant yn gofyn cwestiynau i ail-weld yr esiampl. Athrawes yn cerdded o gwmpas, edrych ar waith y plant.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Plentyn yn dawnsio ar ddesg, efallai angen sylw, athrawes yn gawl fe lawr a chario'n ymlaen esbonio'r wers. Eto ddim yn gwranddo, profi pryd mae'r athrawes yn gofyn fe cwestiynau mae'n ateb yn anghywir. Rhaf siarad Saesneg - cosbi trwy un gair = un munud ychwanegol yn y dosbarth amser egwyl. Bachgen ddim yn neud gowaith, wedi blino gofynnais pam dywedodd iddo fynd i gysgu 3yb oherwydd roedd yn chwarae gemau.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19
Manylion y wers: Gwers celf, 30 plant, grŵp isel, Bl8
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Eistedd mewn grwpiau - gallu dewis pwy chi'n eistedd ar bwys. Adnoddau yn cynnwys pensil lliwiau, premesur,
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Nod amcanion ar fwrdd gwin - gorffen gwaith o wers ddiwethaf, datblygu eu hiaith trwy edrych ar ansoddeiriau, datblygu sgiliau lliwio.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Gan bob plentyn tudalen lefelau yn eu llyfr felly gallwn nhw gweld sut i wella yn eu gwaith. - Rhoi targedi e.e. gorffen y tasgau erbyn diwedd y wers
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Athro yn rhoi gwaith gwahanol i rai plant - paratoi am yr rhai sy'n mynd i orffen y waith yn gynnar.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Gofyn cwestiynau i'r plant - Mynd o gwmpas y dosbarth ac edrych ar waith y plant.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Rhaf yn gweiddi allan - Rhaf yn gofyn cwestiynau, eisiau i'r athrawes ail-ddweud beth i wneud - efallai ddim yn deall esboniad yr athrawes, efallai ddim yn gwranddo. - Siarad Saesneg yn y dosbarth - cosbi trwy roi munudau ar y bwrdd (un gair Saesneg = un munud wrth amser egwyl). Gwobrwydd yr athrawes os oedd y plant yn siarad Cymraeg trwy dynnu i ffwrdd un munud ar y tro. Roed hyn yn neud i'r dosbarth gweithio mewn tîm i geisio lleihau'r munudau.

Atodiad C:

Atodiad Ch:

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19
Manylion y wers: Bl8, grŵp isel, tua 30 o blant, 1 awr, gwers mathemateg
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Eistedd yn rhesi, Defnyddio dau lyfr - un am nodiadau un am weithio allan, plant yn defnyddio premesur, cyfrifiannell. Athro yn aros nes i bron pawb i orffen un cwestiwn cyn symud ymlaen.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Datblygu sgiliau rhifau a datrys problemau. - Hybu eu dealltwriaeth o arwynebedd a pherimedr siapau gwahanol
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Athro yn neud y cwestiwn cyntaf o'r gwaith tudalen fel esiampl i helpu'r plant deall beth i'w neud. - Athro yn mynd trwyddo pob cwestiwn ar y bwrdd gwin,
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Cyfnod agoriadol - 5 cwestiwn ar fwrdd
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Athro mynd o gwmpas ac edrych ar waith y plant, gofyn iddyn nhw ydyn nhw'n deall? - Marcio cwestiynau yn y dosbarth.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Rhai bechgyn yn siarad a throï rownd. - Rhai yn gorffen yn gynharach a ddim i neud, dechreuon nhw siarad.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19
Manylion y wers: Sbaeneg, 30 plant, 1 awr, grŵp isel,
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Eistedd yn rhesi, defnyddio bwrdd gwin, geiriadur, geiriau a lluniau ar y wal i helpu'r plant. Rhoi allan tudalen Gwaith I orffen, defnyddio 'class tools' ar y we.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Datblygu gwybodaeth am rifau yn Sbaeneg er mwyn gallu dweud dyddiadau yn Sbaeneg - canol bwyntio ar rifau 20-31.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Athro yn atgoffa'r plant beth wnaethon nhw wers ddiwethaf - rhifau - Mynd dros rifau ar ddiwedd y wers
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Athrawes gofyn pwy sydd wedi gorffen er mwyn rhoi gwaith ychwanegol iddyn nhw. - Trwy ddefnyddio Class Tools - dewisodd enwau ar hap i ateb cwestiynau - ffordd asesu hefyd, gwirio pwy sy'n deall y gwaith erbyn diwedd y wers.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Dewis pwy sy'n ateb cwestiynau - Cerdded o gwmpas y dosbarth edrych ar waith y plant. - I gloi'r wers rhoddodd yr athrawes rhifau ar fwrdd gwin, wnaeth symiau gyda'r rhifau yn Sbaeneg - datrys problemau a hefyd Defnyddio sgiliau mathemateg.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Bachgen yn cael ei symud oherwydd roedd yn siarad Saesneg. - Bachgen yn chwibanu - Bachgen dim gyda premesur - athrawes yn pwysleisio bod hyn yn offer sylfaenol yr Ysgol dyle fe gydag un pob gwers. - Bachgen yn edrych rownd ar waith pobl eraill, efallai ddim yn deall beth i wneud a diffyg hyder i ofyn cwestiwn.

Atodiad D:



Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Bachgen yn dawnsio ar ddesg

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Arsylwyd digwyddiad diddorol
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Yn ystod gwers Darlunio a Thechnoleg dawnsiodd bachgen ar ddesg pan oedd yr athrawes yn esbonio fel i ddefnyddio peiriant gwnio. Roedd y plant i gyd yn chwerthin ond yn syth dywedodd yr athrawes 'cer lawr'. Wedyn, cariodd hi ymlaen esbonio'r cyfarwyddiadau i'r plant. Gwrandawodd y bachgen wedyn fel y plant arall.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Mae'n amlwg roedd y bachgen eisiau sylw ond pam? Efallai eisiau profi rhywbeth, dim gyda ymdeimlad o berthyn neu hefyd efallai mae'n dioddef o hunan-barch felly eisiau help adeiladu ei hyder. Rhai weithiau mae plant fel hyn yn amrwd yn unig. Gallwn defnyddio 'Restorative Care' sef gweithio gyda'r bachgen gofyn beth wnaethon anghywir, fel mae'r achos wedi ei effeithio a bodloni beth sydd eisiau neud i sicrhau bod pethau yn gywir. Cwestiynau fel: Beth sydd wedi digwydd? Fel oeddech chi'n teimlo ar y pryd? Pwy sydd wedi cael ei effeithio wrth hyn? Hackney Learning Trust am ysgolion yn dweud mae'r dull yma yn fuddiol e.e. mae'r disgybl yn dysgu fel i ymddwyn gwell.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Er gweithiodd y camau weithredu'r athrawes trwy ddim rhoi sylw at y bachgen wrth gario yn ymlaen esbonio i'r plant ac anwybyddu'r bachgen, gallai hi hefyd pryd mae'r plant wedi dechrau eu cyfarwyddiadau, cymryd y bachgen i'r ochr i siarad – esbonio pam dyle fe ddim neud yr un beth eto oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ef a'r dosbarth. Er nad ydych chi'n cosbi'r bachgen, mae'n sicrhau bod y bachgen ddim dawnsio ar y ddesg eto. Ystod y wers rhoddodd yr athrawes adborth cadarnhaol i'r bachgen efallai i godi ei hyder i weithio'n dda yn y dosbarth.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad Dd:



Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26.9.19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Siarad Saesneg yn y dosbarth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Arsylwyd digwyddiad diddorol yn fy arsylwi heddiw.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Yn ystod gwers Celf, siaradodd llawer o'r plant Saesneg. Er rhoddodd yr athrawes rhybudd i'r plant, parhasant i ddefnyddio geiriau Saesneg. Cosbodd yr athrawes trwy roi munudau ar y bwrdd (un gair Saesneg = un munud wrth amser egwyl). Yn ogystal, gwobrwyodd yr athrawes pryd roedd y plant yn siarad Cymraeg trwy dynnu i ffwrdd un munud ar y tro. Roed hyn yn neud i'r dosbarth gweithio mewn tîm i geisio lleihau'r munudau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Dosbarth gwan oedd hyn, felly gallwn ystyried bydd eu hiaith ddim mor gryf â phlant arall. Efallai dydy llawer o'r plant ddim yn siarad Cymraeg gartref, dim ond Saesneg. Mae'n amlwg wedyn bydd yn fwy naturiol i rai siarad Cymraeg na rhai eraill. Mae'n ddiddorol gweld y plant er bod nhw'n falch o fod yn Gymraeg ac yn hollol cefnogi Cymru – dydyn nhw ddim yn cyflawni hyn yn yr agwedd o siarad yr iaith. Gallwn ystyried wedyn efallai mai rhai plant yn ddiffyg hyder o siarad yr iaith neu efallai dydy e ddim yn glaeir i siarad yr iaith.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Dyle annog y plant i wastad siarad Cymraeg. Gallwn roi enghreifftiau o bobl enwog sydd yn siarad yr iaith i ddangos mae hyd yn oed enwog yn siarad yr iaith. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod geiriaduron yn y dosbarth i'r plant defnyddio os dydyn nhw ddim yn gwybod y gair Cymraeg. Wrth ddefnyddio llenyddiaeth gwelir y rhesymau dros siarad Saesneg a ddim Cymraeg – byddwn diddorol weld os mae patrwm, efallai plant hynaf yn siarad yr iaith yn llai neu marchod yn siarad Cymraeg fwy na bechgyn. Gyda'r atebion rhain, gallwch ymhellach datrys gwreiddiau'r broblem.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad E:



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 29.9.19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): - Rhai yn gorffen yn cynharach a ddim l neud, dechreuon nhw siarad.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Cefais fewnwelediad i fynediad a her y dosbarth. Arsylwyd achos critigol diddorol.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Rhoddodd yr athrawes gwaith i'r plant. Er teimlad roedd y dasg yn ddiddorol a hyd yn oed herio'r plant, gorffennodd rhai yn gynharach. O ganlyniad iddyn nhw gael dim arall o waith, dechreuon nhw siarad. Er roedd y gwaith yn addas i fwyafrif o'r plant, roedd yn glir doedd hyn ddim yn addas i'r plant mwy a thalentog.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Ma'n amlwg dydy'r athrawon ddim wedi gwahaniaethu'r gwaith y dosbarth. O ganlyniad, mae rhai yn gorffen yn gynnar ac efallai bydd rhai ddim yn gorffen digon cyflym. Nid ydych chi'n cyflawni'r pedwar pwrpas Donaldson os mae'r gwaith ddim yn addas i'r plant.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Rhaid cael gwahaniaethau yn y gwaith er enghraifft, gallai'r athrawes neud yn siŵr mae gwaith ychwanegol i gael i'r plant sydd yn gorffen yn gynnar. Hyd yn oed, weithiau rhaid cael gwaith haws i rai disgyblion er mwyn sicrhau rydyn nhw'n deall y gwaith. Rhaid cofio, er rydych chi'n dysgu dosbarth o 30, rydych ddysgu 30 unigolyn felly dydy bob dull ddim yn gweithio i bawb.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad F:



Model Beirniad Wedi Adfyfyrrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26.9.19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): bachgen ddim gyda offer sylfaennol yr ysgol

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Roeddwn chwilfrydig wrth weld digwyddiad diddorol ystod y wers Sbaeneg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Gofynnodd bachgen i fenthyg premesur. Er rhoddodd yr athro premesur, pwysleisiodd bod hyn yn offer sylfaenol yr ysgol felly dyle fe gydag un pob gwers. Mae'n glir nad oedd y bachgen wedi paratoi am ysgol heddiw.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Rhaid edrych yn ddyfnach mewn i'r digwyddiad er mwyn cael dealltwriaeth well. Mae'n ddiddorol synnu pam anghofiodd y bachgen yr offer yma. Gallwn ystyried nad ydy gyda'r gefnogaeth o'i deulu er mwyn sicrhau bod popeth yn barod i'r ysgol. Yn ogystal gallwn feddwl efallai mai'r bachgen wir ddim yn poeni os mae ganddo'r offer cywir i ysgol felly rhaid edrych am pam mae'n ddiffyg y cymhelliant i ysgol a dysgu.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Mae yna sawl rheswm o pam efallai anghofiodd yr offer fodd bynnag, gallwn sicrhau bod cefnogaeth yr ysgol iddo hyd yn oed os dydy'r bachgen ddim yn cael y gefnogaeth gartref. Gall yr athrawon sicrhau bod yna offeru sbâr yn y dosbarth i'r rhai sydd wedi anghofio neu fethu fforddio. Wrth ddatrys y broblem yn ddyfnach gallwn gwestiynu'r bachgen am ei reswm i anghofio'r offer.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Llyfryddiaeth:

- Bailey, K. (1994). *Methods of Social Research* (fourth edition). New York: The Free Press.

- British Educational Research Association [BERA] (2018) Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition, London. <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018>
- Cohen, L. (2018), *Research Methods in Education*. London ; New York: Routledge.
- Curson, S. Wilson-Smith, Kevin. Holliman, A. (2019) 'British Psychological Society', *Psychology Teaching Review*, 25(1), tud.30-42.
- Donaldson, G. (2015) *Successful Futures Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. Ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf> (Cael at: 22ain Hydref 2019).
- Dreikurs, R. a Dinkmeyer, D. (2000) *Encouraging children to learn*. New York: Routledge.
- Dreikurs, R., Grunwald, B., Pepper, C. (1982) *Maintaining sanity in the classroom: Illustrating teaching techniques*. New York: HarperCollins.
- Estyn, (2016) Adroddiad ar Ysgol X [ar lein] URL ddim ar gael oherwydd canllawiau BERA.
- Etraut, M. (1994) *Developing Professional Knowledge and Competence*. London: Routledge.
- Goodenow, C a Grady, K. (1993), 'Relationship of School Belonging and Friends' Values to Academic Motivation Among Urban Adolescents students', *Journal of Experimental Education* 62, tud.60-71.
- Llywodraeth Cymru, (2019) *A Guide to Curriculum for Wales 2022* Ar gael: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/cd/b4/f8/7c/b7d34ffb968d9a09de4d460c/a-guide-to-curriculum-for-wales-2022.pdf> (Cael at: 24ain Hydref 2019)
- Llywodraeth Cymru. (2018) *Successful Futures: Looking at the Curriculum and Assessment Arrangement in Wales A Summary of Professor Graham Donaldson's report*. Ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf> (Cael at: 23ain Hydref 2019).
- Llywodraeth Cymru. (2017) *Education in Wales: our National Mission* Ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf> (Cael at: 22ain Hydref 2019).
- Malmgren, K. Trezek, B. a Paul, P. (2005) 'Models of Classroom Management as Applied to the Secondary Classroom', *The Clearing House: A Journal of Educational Strategies, Issues and Ideas*, 79(1), tud. 36-39.

- McLeod, S. A. (2018). *Jean Piaget's theory of cognitive development - Simply Psychology* Ar gael: <https://www.simplypsychology.org/piaget.html> (Cael at: 22ain Hydref 2019).
- My Local School, 2019. (i) adroddiad ar Ysgol X. [ar lein] URL ddim ar gael oherwydd canllawiau BERA.
- Peretti, P.O., Clark, D., & Johnson, P. (2001). 'Effect of parental rejection on negative attention-seeking classroom behaviors' *Education*, 104(3), tud. 313-31.
- Restorative Justice Council, *Restorative Practice in Schools* Ar gael: <https://restorativejustice.org.uk/restorative-practice-schools> (Cael at: 22ain Hydref 2019).
- Robson, C. (2002) *Real World Research* (second edition). Oxford: Blackwell.
- Roffey, S., Boyle, C., Allen, K. (2019), 'School belonging: Why are our students longing to belong to school?', *Education and Child Psychology*, 32 (2), tud. 6-8.
- Schön, D. (1983) *The Reflective Practitioner: How Professionals Think in Action*. New York: Basic Books.
- Symonds, J. a Galton, M. (2014) 'Moving to the next school at age 10–14 years: An international review of psychological development at school transition', *Review of Education*, 2(1), tud. 1–27.
- Tauber, R. (2007) *Classroom management: Sound Theory and Effective Practice Fourth edition*. Westport: Praeger
- Taylor, J.C., & Carr, E.G. (1992). 'Severe problem behaviors related to social interaction'. *Behavior Modification*, 16(3), tud. 305-335.
- Tripp, D. (2012) *Critical incidents in teaching*. London: Routledge.
- Tripp, D. (1993) *Critical incidents in teaching*. London: Routledge.
- Vygotsky, L. S. (1978). *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge: Harvard University Press
- Wragg, E.C. (1994), *An Introduction to Classroom Observation*. London: Routledge.